COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MAWRTH, 4 MEHEFIN 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | MJ Kearn | AA Pucella | JE Williams |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Ilaria Agostini | Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Sharon Jones | Cynorthwy-ydd Trwyddedu |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |

192. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

193. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn Cofnodion cyfarfod yr Is-Bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019 fel cofnod gwir a manwl gywir.

194. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am gerbyd hurio preifat.

Nododd yr adroddiad bod y cais yn cael ei gyflwyno gan Peyton Travel Limited, i drwyddedu cerbyd Dacia Logan â'r rhif cofrestru LL66 RZK fel cerbyd hurio preifat â 4 sedd. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i cofrestrwyd â'r DVLA ar 30 Tachwedd 2016.

Nid oedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn. Darparwyd hanes gwasanaeth y cerbyd â'r dyddiad 14 Chwefror 2018, gyda'r milltiroedd yn cael eu cofnodi ar y pryd fel 10926.

Aeth yr aelodau yn eu blaen wedyn i archwilio'r cerbyd a oedd ym maes parcio islawr y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl ailymgynnull cafwyd cadarnhad mai milltiroedd y cerbyd oedd 14312.

Rhoddwyd canllawiau'r polisi mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau Cerbydau Hurio Preifat ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Bu i'r aelodau adael yr ystafell i ystyried y cais ymhellach ac ar ôl ailymgynnull,

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i gofrestru'r cerbyd â'r rhif cofrestru LL66 RZK fel cerbyd hurio preifat.

Nododd aelodau nad oedd y cais yn bodloni polisi 2.1 oherwydd oedran a milltiroedd y cerbyd.

Nododd yr aelodau y gellir llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 y polisi a bod y canllawiau yn 2.2.5 yn berthnasol, yn benodol ansawdd y tu mewn a'r tu allan i'r car a'r safonau diogelwch eithriadol. Fel y cyfryw, roedd yr Is-Bwyllgor yn fodlon caniatáu'r drwydded.

195. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am gerbyd hurio preifat.

Nododd yr adroddiad bod y cais yn cael ei gyflwyno gan Peyton Travel Limited, i drwyddedu cerbyd Dacia Logan â'r rhif cofrestru WF18 MPU fel cerbyd hurio preifat â 4 sedd. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i gofrestrwyd â'r DVLA ar 10 Ebrill 2018.

Nid oedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu, am y rheswm/rhesymau a nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn. Nid oedd hanes gwasanaeth i'r cerbyd.

Aeth aelodau yn eu blaen wedyn i archwilio'r cerbyd a oedd ym maes parcio islawr y Swyddfeydd Dinesig.

Ar y cyfarfod yn ailymgynnull cafwyd cadarnhad mai milltiroedd y cerbyd oedd 8042.

Bu i'r aelodau adael yr ystafell i ystyried y cais ymhellach ac ar ailymgynnull y cyfarfod,

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-Bwyllgor y cais i gofrestru'r cerbyd â'r rhif cofrestru WF18 MPU fel cerbyd hurio preifat.

Nododd aelodau nad oedd y cais yn bodloni polisi 2.1 oherwydd oedran a milltiroedd y cerbyd.

Nododd aelodau y gellir llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 y polisi a bod y canllawiau yn 2.2.5 yn berthnasol, yn benodol ansawdd y tu mewn a'r tu allan i'r car a'r safonau diogelwch eithriadol. Fel y cyfryw, roedd yr Is-Bwyllgor.

196. EITEMAU BRYS

Dim.

197. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Mai dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y diwygiedig gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiaeth) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd rhag y cyfarfod yn ystod trafodaeth o'r eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a/neu Baragraff 21 Rhan 5 Amserlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn y prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, mai yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u gwahardd rhag y cyfarfod, gan yr ystyrir mai ym mhob amgylchiad mewn perthynas â'r eitemau, roedd budd y cyhoedd i gynnal y gwaharddiad yn gorbwyso

budd y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr dan sylw.

198. DERBYN Y COFNODION EITHRIEDIG

199. CAIS CANIATÂD AM DRWYDDEDAU

200. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

201. GWRANDAWIAD DISGYBLU I YRRWR TACSI PRESENNOL

Daeth y cyfarfod i ben am 11:42